



**Adroddiad Blynyddol**  
y  
**Bwrdd Monitro Annibynnol**  
yng  
**Ngharchar EM Brynbuga a**  
**Phrescoed**

ar gyfer y flwyddyn adrodd  
1<sup>af</sup> Ebrill 2016 hyd 31<sup>ain</sup> Mawrth 2017

Cyhoeddwyd  
Awst 2017



*Monitro tegwch a pharch i bobl yn y carchar*

## **Adran 1**

### **RÔL STATUDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL**

Mae Deddf Carchardai 1952 a'r Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 yn gofyn fod pob carchar ac IRC yn cael eu monitro gan Fwrdd annibynnol, a benodir gan yr Ysgrifennydd Cartref / Gweinidog Cyfiawnder, o blith aelodau o'r gymuned lle mae'r carchar neu'r ganolfan wedi'i leoli.

Dyletswydd benodol y Bwrdd yw:-

1. Ei fodloni ei hun fod y rheiny sy'n cael eu cadw yn ei garchar yn derbyn triniaeth waraidd a chyfiawn a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau'n ddigonol ac yn ddigon amrywiol.
2. Rhoi gwybod yn brydlon am unrhyw bryderon sydd ganddo i'r Ysgrifennydd Gwladol neu unrhyw swyddog arall y mae wedi dirprwyo'r awdurdod iddo fel y mae'n ei farnu'n briodol.
3. Adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â pha mor dda mae'r carchar wedi cwrdd â'r safonau a'r gofynion sydd arno a pha effaith y mae'r rhain yn ei chael ar y rheiny sydd yn y carchar.

I alluogi'r Bwrdd i wneud y dyletswyddau yma'n effeithiol mae hawl ganddynt weld bob carcharor a phob rhan o'r carchar ac hefyd gofnodion y carchar.

## Adran 2

### CYNNWYS

Adran 1	Rôl Statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol	Tudalen 1
Adran 2	Cynnwys	Tudalen 2
Adran 3	Disgrifiad o'r Carchardai	Tudalen 3
Adran 4	Crynodeb Gweithredol	Tudalen 4
Adran 5	Cydraddoldeb a Chynhwysiad	Tudalen 5
Adran 6	Addysg, Dysgu, Sgiliau a Gweithgareddau Pwrpasol	Tudalen 6
Adran 7	Gofal Iechyd ac Iechyd Meddwl	Tudalen 7
Adran 8	Ailsefydlu	Tudalen 8
Adran 9	Diogelwch a Gwarchodaeth fwy Diogel	Tudalen 9
Adran 10	Gwasanaethau Preswyl	Tudalen 12
Adran 11	Rhaglenni	Tudalen 13
Adran 12	Amser Allan o'r Gell	Tudalen 13
Adran 13	Esiamplau o Ragoriaeth	Tudalen 14
Adran 14	Meysydd sy'n Achos Pryder	Tudalen 14
Adran 15	Ystadegau'r Bwrdd	Tudalen 15

## Adran 3

### **DISGRIFIAD O'R CARCHAR**

3.0 Mae Carchar EM Brynbuga a Phrescoed ar dri safle. Mae Carchar EM Brynbuga yn garchar Categori C yn nhref Brynbuga, mae Carchar EM Prescoed yn garchar Categori D yn ardal Presgoed ac mae fferm carchar Cwllirgi ychydig filltiorodd i ffwrdd yng Nghoed-y-paen. Mae rhai o'r carcharorion o Brescoed yn gweithio ar y fferm. Mae carcharorion ym Mrynbuga a Phrescoed wedi eu cefnogi gan Swyddogion Personél, Gweithwyr achos, Adran Seicoleg, tîm Camddefnyddio Sylweddau, y Gaplaniaeth, Adran Gofal Iechyd a Thîm Ailsefydlu. Mae gofal iechyd yn cynnig cyfleuster gofal dydd ym Mrynbuga a Phrescoed, ond nid oes gwelyau ar gyfer cleifion mewnol. Mae gan Garchar EM Brynbuga a Phrescoed lyfrgelloedd a gymnasia, ac mae gan Brescoed gapel i ffyddau amrywiol.

3.1 Agorodd Carchar EM Brynbuga yn 1844 ac mae'n adeilad hen ffasiwn gyda thair prif adain yn ymestyn allan o fan rheoli canolog. Crogwyd carcharor yno ddiwethaf yn 1961, a chadwyd Rudolph Hess yno am ran o'r Ail Ryfel Byd. Erbyn hyn mae'n garchar Categori C i ddynion sy'n dal carcharorion bregus: mae'r mwyafrif ohonynt yn droseddwr rhyw. Y Lleoedd Aros Cyflawn Ardystiedig (CNA) yw 278. Roedd y Rhaglen Trin Troseddwr Rhyw (SOTP) ar gael i'r holl garcharorion nes y cafodd ei diddymu ym mis Mawrth 2017 ac yn ei lle cafwyd cynlluniau Horizon a Kaizen, ac mae yno Adran Addysg ffyniannus.

Amcanion y carchar yw dal carcharorion yn ddiogel ac yn gaeth a darparu sefydliad trefnus lle mae carcharorion yn cael eu trin yn ddyngar a gweddus a gyda pharch. Bwriad y drefn strwythuredig yw paratoi'r carcharorion ar gyfer eu rhyddhau'n ddiogel, a gostwng y risg o ail-droseddu. Mae gweithdai saer coed, gosod brics a phlastro yng Ngharchar EM Brynbuga.

3.2 Mae Carchar EM Prescoed mewn ardal agored o gefn gwlad agored ar safle'r cyn-Sefydliad Troseddwr Ifanc a agorodd yn 1939 tua tair milltir o Frynbuga. Erbyn hyn mae'n garchar ailsefydlu Categori D a'r Lleoedd Aros Cyflawn Ardystiedig yw 260. Cynlluniwyd y drefn ym Mhrescoed i ailsefydlu ac addysgu drwy gynllun dedfrydau a chynllun ailsefydlu strwythuredig; a hyrwyddo gostyngiad yn y risg y bydd carcharorion yn aildroseddu pan fyddent yn dychwelyd i'w cymunedau. Mae cyfleoedd i gael addysg, hyfforddiant a lleoliadau gwaith, a dyrennir adnoddau i ailsefydlu carcharorion. Mae'r drefn

sefydledig ym Mhrescoed wedi cynnwys ystod o ddiwydiannau a gweithgareddau ac mae'n parhau heddiw oherwydd mae'n bwriadu cynyddu'r nifer o leoliadau gwaith priodol.

Gall y Bwrdd adrodd mai ychydig iawn oedd yr achosion o ddianc a methiant yn y Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro yn ystod y cyfnod yma. Mae hyn yn adlewyrchu cyfradd lwyddo y mae'r carchar yn naturiol falch ohoni, yn arbennig wrth ystyried faint o drwyddedau dros dro sy'n cael eu cyhoeddi bob blwyddyn. Mae pob carcharor sy'n dianc yn cael eu dychwelyd i amodau caeedig. Mae absenoldebau diawdurdod eraill yn atebol i'r broses ddyfarnu a chymerir camau cadarn (e.e. colli breintiau).

3.3 Mae fferm Cwligri'n 460 erw o faint, y mae 160 erw ohono'n dir coediog, a chanddo amrywiaeth o dai allan. Mae gan y fferm fuches laeth ffyniannus. Mae nifer o gyfleoedd i'r carcharorion hyfforddi, e.e. tŷ godro, rheoli'r fuches, magu anifeiliaid, ffermio tir âr, gwaith y felin lifio, sgiliau sylfaenol ar beiriannau'r fferm. Ar gyfartaledd, mae rhwng 15 a 25 o garcharorion yn gweithio ac yn hyfforddi ar y fferm bob dydd. Mae ychwanegu arbenigwr garddwriaethol i'r tîm hyfforddi wedi ehangu'r cyfleoedd i'r carcharorion.

Mae'r fferm yn ardal ddynodedig o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSI).

#### **Adran 4**

##### **CRYNODEB GWEITHREDOL**

- 4.1 Mae'r newidiadau parhaus yn yr uwch reolwyr a'r prinder parhaus mewn pobl i lenwi rhai safleoedd wedi achosi pryderon mewn perthynas â chyfathrebu gyda'r bwrdd oherwydd diffyg presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac o ran symud ymlaen gyda datblygiadau sydd wedi eu cynllunio o fewn y carchar. Mae Llywodraethwr Rhif 1 newydd wedi ymuno â'r tîm yn ddiweddar ac mae'r bwrdd yn edrych ymlaen at weld y gwelliannau y mae'n eu gwthio.
- 4.2 Mae llwyddiant parhaus y Fferm mewn garddwriaeth ac mewn hyfforddi ar gyfer swydd wedi bod yn uchelbwynt eleni
- 4.3 Mae'n ymddangos bod cyfranogaeth y carcharorion, hyfforddwyr ac asiantaethau allanol yn y cwrs Camddefnyddio Sylweddau yn dod â

chanlyniadau positif. Mae'r bwrdd yn gobeithio y bydd unrhyw arian sy'n ofynnol ar gyfer y prosiect yma'n derbyn ystyriaeth

- 4.4 Bydd newidiadau sy'n codi o ymgynghoriad am Addysg, dysgu a sgiliau'n cael eu monitro'n agos i sicrhau bod y carchar yn cynnal y safon uchel a welwn ar hyn o bryd.
- 4.5 Mae'r diffyg manau bwyta comiwnol ym Mrynbuga'n parhau i achosi pryder gyda charchorion yn gorfod dychwelyd i'w celloedd i fwyta prydau.

## **Adran 5**

### **CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIAD**

Mae'r Swyddog Cydraddoldeb yn parhau yn ei swydd, ac mae'r rôl yn gwasanaethu CARCHAR EM BRYNBUGA a CHARCHAR EM PRESCOED. Mae cyfarfodydd Amrywiaeth a Chydraddoldeb Chwarterol yn cael eu trefnu. Yn ystod y cyfnod adrodd cyfredol, roedd yn rhaid i'r pedwerydd cyfarfod gael ei aildrefnu.

Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan amrywiol lywodraethwyr carchar ac mae cynrychiolwyr y carcharorion wedi dod o'r ddau sefydliad. Unwaith eto, mae'n anffodus adrodd nad yw Gofal Iechyd, Arlwygo a Dysgu a Sgiliau bron byth yn bresennol er gwaethaf y ffaith fod y cadeirydd yn rhoi sicrhau yn rheolaidd y byddent yn bresennol yn y dyfodol.

Mae'r pwyllgor yn rheoli ac yn monitro materion sy'n ymwneud a thriniaeth gyfartal carcharorion ac mae'r swyddog cydraddoldeb yn cyflwyno adroddiad ymhob cyfarfod. Gwahoddir yr aelod o'r Bwrdd Monitro Annibynnol ac mae cynrychiolwyr y carcharorion yn dod o grwpiau lleiafrifol o fewn y boblogaeth. Mae eu cynrychiolaeth yn berthnasol ac yn adeiladol. Trafodir materion sydd wedi digwydd yn ystod y cyfnod cyfamserol rhwng cyfarfodydd. Gwneir penderfyniadau am reoli, cymerir camau gweithredu dilynol a rhoddir adroddiad arnynt yn y cyfarfod dilynol. Cytunir ar welliannau a/neu newidiadau lle bo'n bosibl.

Mae'r swyddog cydraddoldeb wedi trefnu rhaglen dreigl lwyddiannus a chynhwysfawr o weithgareddau a fforymau yng Ngharchar EM Brynbuga. Mae cyfrifoldeb tîm gofal gwasanaethau cymdeithasol cyngor sir Fynwy o dan

ddeddf 2010 wedi arwain at gyd-brosiectau therapiwtig rheolaidd sy'n cael eu cynnal i Bensiynwyr ym Mrynbuga gyda llawer o lwyddiant. Mae cyd-integreiddiad tebyg yn cael ei gyflwyno yng Ngharchar EM Presgoed ar hyn o bryd. Mae cyswllt rhwng swyddog cydraddoldebau a phartneriaethau eraill wedi cyflwyno arferion cefnogol a galwedigaethol ar y ddau safle.

Mae materion cydraddoldeb yn cael eu cofnodi a'u monitro gan y swyddog cydraddoldeb a, lle derbynnir adroddiad am ddigwyddiad gwahaniaethu {DIRF} mae'r swyddog yn ymdrin ag o. Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu monitro a'u llofnodi gan yr aelod priodol ar y Bwrdd Monitro Annibynnol.

## **Adran 6**

### **ADDYSG, DYSGU, SGILIAU A GWEITHGAREDDAU PWRPASOL**

1. Mae'r Adroddiad Hunan-asesu (SAR) blynyddol yn cael ei baratoi ar hyn o bryd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn rhan o'r broses sicrhau ansawdd.
2. Mae'r adroddiad Q4 wedi ei ysgrifennu a'i ddychwelyd at Bencadlys Gwasanaeth Carchar a Phrawf EM. Cafwyd adroddiad diwedd blwyddyn iach ar y cyfan er bod rhai materion i gael eu datrys mewn perthynas â chasglu data sydd wedi bod yn broblematig.
3. Cafwyd rhai anawsterau gyda gweithredu SOP sydd wedi golygu bod rhai sefydliadau heb gael eu talu'n brydlon, ac un o'r rhain oedd C&G a ddiddymodd statws y ganolfan dros dro nes gwnaed y taliad.
4. Mae'r Cynllun Darllen Shannon Trust yn dal yn llwyddiannus ac mae'r elusen fathemateg 1-2-1 sy'n rhedeg ar linellau tebyg i'r Shannon Trust yn llwyddiannus iawn hefyd ym Mrynbuga.
5. Enillodd un o'r athrawon ddyfarniad Athro Rhagorol y Flwyddyn gan yr Ymddiriedolaeth Addysg Carcharorion sy'n gyflawniad gwych ac rydym oll yn falch iawn ohoni.
6. Mae darpariaeth pecyn addysg am wythnos ym Mhrescoed y mae'r holl garcharorion yn ei wneud yn rhan o raglen ymsefydlu'r sefydliad yn rhedeg yn llwyddiannus iawn ac yn cynnwys cymwysterau mewn lechyd a Diogelwch, Hy-lendid Bwyd Hanfodol, Llythrennedd, Rhifedd, TGCh ac ymwybyddiaeth am gyffuriau. Gwneir defnydd da o'r cyfleuster dysgu agored a'r cyfleuster llythrennedd a rhifedd parhaus.

7. Cafodd TGAU mewn Addysg Grefyddol ei gyflwyno ym Mrynbuga mewn cydweithrediad â'r gaplaniaeth ac mae'n llwyddiannus iawn ac yn cynhyrchu rhai dadleuon bywiog.
8. Ysgrifennodd un uwch reolwr yn y Brifysgol Agored nodyn hynod o ganomoliadwy ar yr adran ar 27 Ionawr 2017 fel yn y darn sy'n dilyn: 'Ystyrir carchar Brynbuga'n ganolfan rhagoriaeth i addysg carchardai'. Yn ogystal â bod yn hynod gefnogol a hyrwyddo astudiaeth y Brifysgol Agored, mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i garcharorion astudio cymwysterau allanol wedi'u harholi ar lefel TGAU a Lefal A gan ddefnyddio byrddau arholi megis AQA, CBAC a City and Guilds.'
9. Mae'r Gweithgareddau sydd ar gael ar draws y sefydliad yn cynnwys Gosod Brics, Plastro, Gwaith Coed, Ailgylchu, Garddwriaeth, Fferm, Coed-wigaeth, Cegin a Diwydiannau oll wedi'u llunio i baratoi unigolion ar gyfer yr amgylchfyd tu allan pan gânt eu rhyddhau.
10. Cafodd Fferm Cwlirgi, drwy ei gontract gyda Chyswllt Ffermio, ei henwebu'n 'Ffocws Fforest' i Dde Cymru gan ei galluogi i ddangos arferion gorau i sefydliadau eraill.

## **Adran 7**

### **GOFAL IECHYD**

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan yn gyfrifol am ofal iechyd yng Ngharchardai Brynbuga a Phrescoed. Er bod ganddo rôl arsyllu mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn monitro'r bartneriaeth yma'n rheolaidd ac yn weithredol.

Mae elfennau allweddol gofal iechyd y carchar yn parhau i ddatblygu mewn ymateb i ddeddfwriaeth a demograffeg sy'n newid. Mae poblogaeth carcharorion Brynbuga'n heneiddio ac mae Gofal Iechyd yn ymdopi gyda gofynion amrywiol a chynyddol. Er enghraifft, ym meysydd:

- asthma
- pwysedd gwaed uchel,
- symudedd
- iechyd meddwl
- rhoi'r gorau i ysmegu



Nid oes darpariaeth gofal iechyd llawn amser yn y naill garchar na'r llall. Mae hyn yn golygu nad oes modd osgoi derbyniadau i'r ysbyty ac ymweliadau â'r ysbyty. Rhaid iddynt gael eu hebrwng gan ddau swyddog carchar ac mae hyn wedi cael effaith amlwg ar drefn y carchar - gan olygu bod carcharorion yn treulio mwy o amser yn eu celloedd. Mae rhai pobl, ond nid swyddogion carchar, yn credu y gellid gwneud mwy o ymdrech (gan Ofal Iechyd) i drefnu apwyntiadau dewisol y tu allan i gyfnodau prysur y staff megis amseroedd cinio. Am gyfnod, daethpwyd â'r gwasanaethau Ffisiotherapi i mewn i'r carchar a gwnaeth hyn wahaniaeth sylweddol positif yn nhermau'r driniaeth a chadw'r carcharorion dan glo. Yn anffodus, diddymwyd y gwasanaeth yma o ganlyniad i broblemau ariannu. Erbyn hyn mae'r bwrdd yn deall bod ymyriad gan y rheolwyr yn golygu bod cyllid ychwanegol wedi ei ganfod.

Mae Brynbuga wedi bod yn llwyddiannus o ran cyflwyno'r rheolaeth ar newid oedd yn ofynnol wrth gyflwyno polisi dim ysmegu o fewn yr ystâd yng Nghymru. Mae cyfnod prawf ar waith erbyn hyn i ganiatáu i ddynion ddefnyddio dyfeisiau e-smegu cyfansawdd newydd yn hytrach na'r e-sigarets safonol a achosodd lawer o gwynion yn ymwneud â symptomau rhoi'r gorau i nicotin - canlyniad hyn oedd bod rhai carcharorion yn ceisio cael gafael ar lefelau uwch o nicotin e.e.drwy ysmegu clytiau nicotin. Mae'r arfer yma wedi'i gyfyngu erbyn hyn.

Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod carcharorion yn teimlo bod eu hanghenion iechyd yn cael eu diwallu a bod y gwasanaeth a dderbyniant o leiaf mor dda ag y byddent yn ei dderbyn yn y gymuned. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn cytuno gyda'r farn yma.

## **Adran 8**

### **AILSEFYDLU**

Mae'r staff yn dal i ddangos llawer iawn o ymrwymiad tuag at ddarparu rhaglen ailsefydlu effeithiol.

Mae'r nifer sy'n gweithio allan yn y gymuned yn cael ei gadw ar oddeutu 100-150 yn gyffredinol.

Mae oddeutu traean o'r carcharorion yma naill ai'n gwneud gwaith y telir amdano neu'n cael hyfforddiant/cyfnod prawf sy'n debygol o arwain at waith

y telir amdano ar drwydded. Disgwylir y bydd y mwyafrif o'r rhain yn gynaliadwy i'r dynion pan gânt eu rhyddhau.

Mae'n parhau'n sialens fawr i ganfod cyflogwyr, yn arbennig rhai Cenedlaethol, i roi gwaith i garcharorion sy'n dal i fod yn y carchar. Mae'n bleser adrodd bod nifer ar y llyfrau erbyn hyn gyda Willmott Dixon a DHL yn cael eu hychwanegu at y rhestr honno. Mae'r rhestr o gyflogwyr gyda gwirfoddolwyr neu gyflogeion a delir yn parhau i dyfu o ganlyniad i'r ymdrechion sy'n cael eu gwneud i adeiladu perthnasoedd gwych ar sail cydymddiriedaeth.

Mae Prescoed yn parhau i weithio'n llwyddiannus gyda'r bwyty CLINK yng Nghaerdydd ac maent wedi cynyddu'r nifer sy'n gweithio yno o ganlyniad i gyflwyno oriau agor yn hwyr. Mae CLINK wedi cael gafael ar 5 cyflogwr arall sy'n cynnig gwaith gyda thâl i garcharorion.

Yn ystod y cyfnod yma, cychwynwyd proses ffurfiol o ymgeisio a dethol ar gyfer swyddi gwag. Y rheswm am hynny yw i sicrhau bod carcharorion yn cael eu trin yn deg ar gyfer pob swydd sy'n agored.

Gyda'r bwriad o wella cyfleoedd ailsefydlu ymhellach mae Dysgu a Sgiliau, ynghyd â'r Tîm Lleoliadau Cymunedol: Gyrfa Cymru a Chanolfan Byd Gwaith, Ymddiriedolaeth Addysg y Carcharor a Fferm Cilwrgi wedi trefnu diwrnod agored ar y Fferm yn ddiweddar i roi cyngor am yrfa oedd a chyflogadwyedd. Daeth nifer o elusennau cefnogi, darparwyr hyfforddiant, Colegau a chyflogwyr i'r diwrnod. O ganlyniad uniongyrchol i'r digwyddiad yma mae hyfforddiant Blaenau'r Cymoedd yn darparu cymwysterau wedi'u hachredu yng nghanolfan hyfforddi Fferm Cwlirgi erbyn hyn yn ogystal â chynnig lle ar gyrsiau i garcharorion addas.

Mae dynion o Brescoed yn parhau i weithio'n wirfoddol i Kaleidoscope [Adferiad Cyffuriau ac Alcohol] mewn rôl fentora

Yn fwy diweddar mae Gyrfa Cymru, law yn llaw gyda'r tîm Lleoliadau Cymunedol, wedi rhoi cyfleoedd i'r dynion fynd ar raglenni'r Gwasanaeth Tân fel mentoriaid yn gweithio gyda phobl ifanc yn y gymuned. Y gobaith yw y bydd hyn yn arwain at sefyllfa lle mae'r Gwasanaeth Tân yn cymryd gwirfoddolwyr llawn amser o Garchar EM Prescoed.

Mae Carchar EM Prescoed hefyd yn falch iawn o ddweud bod un myfyriwr ar drwydded ar hyn o bryd ym mlwyddyn academiaidd 2016/17 yn mynd i Goleg Caerdydd a'r Fro a bod dau arall yn mynd i Brifysgol Metropolitan Caerdydd.

Yn ogystal, mae staff y carchar wedi llwyddo i sicrhau tri lleoliad erbyn hyn a fydd yn cymryd troseddwr rhyw i weithio'n wirfoddol ar drwydded. Gallai un o'r rhain fod yn arwain at gyflogaeth barhaol pan fydd y carcharor yn cael ei ryddhau.

Mae'r Tîm Lleoliadau Cymunedol yn gweithio'n agos gyda'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol (Working Links) i sicrhau bod carcharorion sy'n gweithio allan yn y gymuned yn ystod y 12 wythnos cyn eu rhyddhau'n cael amser o'r gwaith i fynd i sesiynau fel sy'n ofynnol gan y Cwmni Adsefydlu Cymunedol Ailsefydlu

## **Adran 9**

### **DIOGELWCH**

Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn mynd i gyfarfodydd diogelwch ar safleoedd Brynbuga a Phrescoed, yn adolygu cofnodion cyfarfodydd ac yn cysylltu gyda Swyddogion allweddol. Trefnir cyfarfodydd gweithredol o'r fath gyda chynrychiolwyr o adrannau o fewn y sefydliadau ac maent yn ystyried goblygiadau diogelwch yr holl weithgareddau a wneir. Roedd arolwg diweddar yn foddhaol ac ni chododd unrhyw achosion arwyddocaol i bryderu mewn perthynas â materion gweithredol. Mae cysylltiad gyda Heddlu Gwent yn rhan bwysig o'r cyfarfodydd yma ac mae gwybodaeth berthnasol yn cael ei chyfnewid. Ymysg yr amcanion diogelwch mae:

- Materion Dianc/Ffoi/Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro
- Rheoli Anhrefn
- Gostwng Troseddu
- Cyffuriau/Alcohol/Tybaco
- Amddiffyn y Cyhoedd
- Nwyddau
- Terfysgaeth/Eithafiaeth

Er bod natur wahanol gan y ddau garchar, mae arsyllu'n dangos nad oes achosion sylweddol i bryderu ar hyn o bryd mewn perthynas â pherfformiad diogelwch ym Mrynbuga neu Brescoed.

Fel y dywedwyd yn yr adran ar Ofal Iechyd, mae Brynbuga wedi bod yn ganolog mewn rhoi cynnig ar y rheoli newid sy'n ofynnol i gyflwyno'r polisi "Dim Ysmygu" ar ystâd carchardai Cymru. Mae cyfnod prawf ar waith i ddeall ac i ganiatáu i ddynion ddefnyddo'r dyfeisiau e-smygu cyfansawdd newydd (y gellir eu hail lenwi a'u hail wefrio) yn hytrach na'r e-sigaréts safonol y derbyniwyd llawer o gwynion amdanynt mewn perthynas â symptomau rhoi'r gorau i nicotin. Canlyniad y rhain (e-sigaréts) oedd bod rhai carcharorion wedi ceisio sicrhau lefelau uwch o nicotin e.e. drwy ysmygu clytiau nicotin - mae'r arfer hwn wedi cael ei gyfyngu erbyn hyn. D.S. mae'n ymddangos bod y staff yn ymwybodol iawn o'r posibilrwydd y gallai unrhyw ddyfais gael ei chamddefnyddio ac maent yn gorfod adrodd am unrhyw bryderon.

Cyn belled ag y mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn ei wybod, nid oes problemau sylweddol ym Mrynbuga/Prescoed ac mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Thimau Amlddisgyblaethol yn dangos achosion isel o brofion positif am sylweddau anghyfreithlon. Mae'r brif broblem gyda'r strategaeth gyffuriau ym Mrynbuga'n ymwneud â charcharorion yn cymryd meddyginiaeth carcharorion eraill ac yn defnyddio meddyginiaeth fel arian e.e. cyffuriau lleddfu poen megis gabapentin. Mae'r sefyllfa'n cael ei monitro a'i datrys.

## **CYNLLUNIAU WRTH GEFN**

Mae gan Frynbuga a Phrescoed amrediad o gynlluniau wrth gefn y mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol wedi eu gweld ar y ddau safle. Mae Brynbuga'n garchar Nad yw'n cynnig Ailsefydlu sy'n rheoli carcharorion bregus a charcharorion sy'n droseddwyr rhyw y mae llawer ohonynt yn atebol i Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) Ar y llaw arall, mae Prescoed yn rheoli ei boblogaeth i'w paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau o'r carchar. Mae nifer sylweddol o garcharorion yn cymryd rhan mewn gwaith y tu allan i'r carchar ac mae'r adran ddiogelwch yn monitro eu gweithgareddau dyddiol ac yn ymddangos yn llwyddiannus o ran sicrhau bod y nifer o eitemau anghyfreithlon sy'n dod i mewn i'r carchar mor isel ag sy'n bosibl. Blaenoriaeth allweddol i'r ddau garchar yw amddiffyn y cyhoedd. Unwaith eto, mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn credu bod y diogelwch ar y ddau safle wedi ei reoli a'i fonitro'n dda a bod y ddau safle'n gweld ac yn ymdrin â bygythiadau.

## **CARCHARIAD MWY DIOGEL (BRYNBUGA)**

Cynhelir cyfarfodydd misol i hybu'r holl broblemau sy'n ymwneud â charchariad mwy diogel. Mae cynrychiolwyr o'r Samariaid, Grŵp Gwrandawyr, Cynllun Bydi, y Bwrdd Monitro Annibynnol a'r swyddogion yn dod i'r cyfarfodydd. Mae cyflwyniad y Cynllun Bydi'n arbennig o ddefnyddiol i helpu carcharorion hŷn neu'r rheiny sydd ag anabledau. Mae oddeutu 18/20 o garcharorion yn cael cefnogaeth gydag amrywiaeth o dasgau e.e. yn cael eu helpu i fynd i ofal iechyd, casglu pethau o'r ffreutur, glanhau celloedd, cymorth i symud a darparu prydu. Mae'r holl weithgareddau'n cael eu cefnogi a'u monitro.

Yn ystod y 12 mis diwethaf mae gwrandawyr wedi treulio cyfartaledd o 63 awr y mis yn helpu carcharorion. Mae ystod y gefnogaeth a roddir yn eang hefyd ac yn cynnwys cymorth i garcharorion sy'n cael teimladau o fod eisiau cymryd eu bywydau, hunan-niweidio, bwlio ac ati. Am fod pethau eraill yn pwysu o fewn y carchar, nid oes bellach ystafell wrandawyr ym Mrynbuga sy'n gyfleuster y mae gwrandawyr a charcharorion fel ei gilydd yn ei golli.

Mae'r grŵp gwarandawyr a'r cynllun bydi'n rhoi cefnogaeth werthfawr i'r carcharorion ym Mrynbuga. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn canmol y gwaith a wnânt ond bydd yn parhau i fonitro nad ydynt yn cymryd unrhyw gyfrifoldebau y dylai'r staff eu gwneud.

## **ARWAHANU**

Fel carchar sy'n darparu ar gyfer Carcharorion Bregus a Throseddwyr Rhyw, nid yw Brynbuga'n cefnogi Uned Arwahanu.

## **Adran 10**

### **GWASANAETHAU PRESWYL**

Mae cegin Prescoed yn 3 blwydd oed erbyn hyn ac mae'n ymddangos bod y problemau cychwynnol wedi cael eu datrys. Mae'r caead diffygol ar y draen a allai achosi perygl baglu wedi ei drwsio. Bydd y Bwrdd Monitro Annibynnol yn monitro hyn yn rheolaidd.

Mae'r prinder carcharorion yn gweithio yn y gegin wedi achosi pryder ac mae'r bwrdd wedi trafod hyn gyda'r llywodraethwr.

Mae cwynion am fwyd i'r Bwrdd Montiro Annibynnol wedi bod ar lefel isel iawn [1] am y flwyddyn

Mae Brynbuga'n garchar rheiddiol o'r 19<sup>eg</sup> Ganrif ac, er gwaethaf hynny, mae'n cael ei gadw'n lân a thaclus ac mewn cyflwr da ar y cyfan. Mae'n anffodus nad yw'r ffordd y mae'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn caniatáu i garcharorion fwyta'n gomiwnol.

Gwnaed gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar waith brics y waliau allanol. Roedd hwn yn brosiect a gynlluniwyd yn arbennig o dda a roddodd ystyriaeth i faterion diogelwch a lles y carcharorion. Roedd mynediad cyfyngedig i'r cae tu allan yn finimol.

Mae Prescoed yn garchar agored modern. Yn gyffredinol, mae'r naw uned unllawr yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae'r uned deulawr arall [Lester] yn edrych yn fwy di-raen ac mae nifer gyfyngedig o gawodydd yno [4 i 40 o garcharorion] y soniwyd wrth y bwrdd eu bod wedi eu tagu'n aml iawn ac mae un sydd ddim yn gweithio'n aml iawn.

Mae archwiliad o hyd i ba mor aml mae'r larwm tân yn canu ym Mhresgoed.

Mae'r contract gyda chyflenwyr gwaith cynnal a chadw adeiladau allanol [Amey] yn datblygu drwy gyfarfodydd rheolaidd gyda'r tîm arweinwyr uwch a mwy o ddealltwriaeth o'r hyn mae'r contract yn ei gynnwys.

Codwyd rhai pryderon ynglŷn â chyflwr cyffredinol glendid/taclusrwydd y tiroedd ym Mhrescoed.

## **Adran 11**

### **RHAGLENNI**

Darparwyd yr ystod cyfan o Raglenni Trin Troseddwy'r Rhyw ym Mrynbuga hyd fis Mawrth 2017. Mae'r rhaglen newydd [HORIZON] yn cael ei chyflwyno'n llwyddiannus i garcharorion risg canolig. Mae'r rhain yn cynnwys dynion sy'n gwadu bod problem ganddynt ac sydd â dedfrydau Carcharu er mwyn Amddiffyn y Cyhoedd (IPP), hyd yn hyn cynhaliwyd dau gwrs cyflawn. Mae'r rhaglen KAIZEN i ddynion risg uchel ar fin cychwyn.

Cofrestrodd Brynbuga'n ddiweddar ar y rhaglen atyniadol ENABLING ENVIRONMENTS. Bydd hyn yn dda i berthnasoedd o fewn y carchar yn y dyfodol.

Mae parhad y rhaglen CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU ym MHRESOED sy'n arwain at gymwysterau ffurfiol hyd lefel 3 City and Guilds i'w weld llwyddiant mawr. Hyd yn hyn, mae'r cwrs wedi rhedeg ddwywaith gyda 24 o ddynion yn cymryd rhan. Mae ugain wedi ennill y cymhwyster. Mae 5 dyn arall wedi cwblhau CWRS CWNSELA

Ers gorffen eu cwrs mae 6 unigolyn wedi cael eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned. Ar hyn o bryd, mae pump o'r dynion mewn swydd lawn amser gyda 3 ohonynt yn gwirfoddoli mewn gwasanaethau cyffuriau ac alcohol. Nid oes tystiolaeth o atgwympo gan y rheiny a hyfforddwyd ar y cwrs. Or rheiny sy'n weddill, mae 2 ddyn ar leoliad gyda Thîm Troseddau Ieuenctid lleol, mae 1 ar leoliad gyda phrosiect ieuenctid, mae 1 ar leoliad gyda'r llys ynadon lleol, mae 3 ar leoliad gyda chanolfan drin cyffuriau leol, ac mae eraill yn aros am gyfle i gael lleoliad.

## **Adran 12**

### **AMSER ALLAN O'R GELL**

#### **BRYNBUGA**

Mae'r newidiadau i'r ddarpariaeth ffisiotherapi o fewn y sefydliad wedi cael effaith negyddol ar amser allan o'r gell am fod angen cynyddol am apwyntiadau ysbyty.

0800awr -1800awr

#### **PRESCOED**

Symud yn rhydd o'r Gwiriad Cofrestr am 06.00awr

Dychwelyd i'w Uned eu hunain erbyn 22.00 awr

## **Adran 13**

### **ESIAMPLAU O RAGORIAETH**

- 1] Mae'r carcharorion wedi croesawu a gwerthfawrogi parhad y diwrnodau teulu a'r gwelliannau i'r ymwelwyr.
- 2] Mae parhad y gwaith ar y fferm gyda hyfforddiant a chysylltiadau gyda chyrff allanol yn rhoi llawer o obaith ar gyfer y posibilrwydd o swydd yn y dyfodol.
- 3] Mae llwyddiant y cwrs Cyffuriau ac Alcohol ym Mhrescoed wedi gwella'r cyfleoedd i'r nifer fawr o garcharorion oedd yn ymwneud yn y gorffennol â chamddefnyddio sylweddau.
- 4] Dyfarnwyd gwobr 'Athro Rhagorol y Flwyddyn' i Cheryl Penn gan yr Ymddiriedolaeth Addysg Carcharorion
- 5] Rhoddwyd gofal rhagorol i garcharor oedd yn derfynol wael gan y staff gofal iechyd a staff y carchar yn ei ddymuniad i aros ym Mrynbuga yn ei ddyddiau olaf.

## **Adran 14**

### **MEYSYDD O BRYDER**

1. Mae'n dal i achosi pryder bod carcharorion ym Mrynbuga'n gorfod bwyta eu prydu yn eu celloedd. Ni ellir pennu manau ar gyfer bwyta comiwnol
2. Mae'r presenoldeb gwael mewn cyfarfodydd Cydraddoldeb gan adrannau penodol yn mynd i gael eu monitro
3. Mae datblygiad System Gofal Iechyd 7 diwrnod o fewn y carchardai'n mynd i ddod yn flaenoriaeth gyda'r Ddeddfwriaeth Gofal Cymdeithasol sy'n cael ei datblygu a'r boblogaeth sy'n heneidido, ym Mrynbuga'n arbennig y Polisi Cenedlaethol ar Ofal Lliniarol ym Mrynbuga.
4. Bydd newidiadau i ostwng pa mor aml y ceir amser 'gorwedd i lawr' ym Mrynbuga'n cael eu hannog a'u monitro.
5. Yn gyffredinol, nid oes gan y Bwrdd unrhyw bryderon difrifol am y ffordd mae Brynbuga a Phrescoed yn gweithredu.



## Adran 15

### YSTADEGAU'R BWRDD

YSTADEGAU'R BWRDD	
Y Nifer Llawn a Argymhellir ar y Bwrdd	15
Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd	11
Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd	13
Nifer aelodau newydd y Bwrdd a ymunodd o fewn y cyfnod adrodd	6
Nifer yr aelodau'n ymadael o fewn y cyfnod adrodd	4
Nifer Cyfarfodydd y Bwrdd yn ystod y cyfnod adrodd	12
Cyfanswm yr ymweliadau â'r Sefydliad	344
Cyfanswm yr Adolygiadau Arwahanu	Amherthnasol
Cyfanswm yr Adolygiadau Arwahanu a fynychwyd	Amherthnasol
Dyddiad yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad y Tîm	Tach 2016

### Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn ystod y cyfnod adrodd

COD	PWNC	BLWYDDYN
A	Llety	2
B	Beirniadaethau	1
C	Cydraddoldeb ac amrywiaeth (yn cynnwys crefydd)	0
D	Addysg/cyflogaeth/hyfforddiant	6
E1	Teulu / Ymweliadau yn cynnwys post a ffôn	4
E2	Cyllid / Tâl	2
F	Bwyd / Yn ymwneud â'r gegin	1
G	Yn ymwneud ag iechyd	6
H1	Eiddo o fewn y sefydliad cyfredol	0
H2	Eiddo yn ystod y trosglwyddiad mewn sefydliad arall	6
H3	Ffreutur, cyfleusterau, siopa o gatalog, Argos	1
I	Yn ymwneud â'r ddedfryd. (Rhyddhau ar drwydded dros dro, parôl, dyddiadau rhyddhau, ail-gategoreiddio ac ati	2
J	Pryderon y Staff/Carcharorion yn cynnwys bwlio	3
K	Trosglwyddiadau	2
L	Amrywiol	10
	Cyfanswm y nifer o Geisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol	<b>46</b>
	O'r cyfanswm - nifer y Mynediad Cyfrinachol oedd	1